

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2022**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2022

Julie James  
Y Gweinidog Newid Hinsawdd  
16 Awst 2022

## **RHAN 1**

### **1. Disgrifiad**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2022 sy'n gwneud diwygiadau angenrheidiol i is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i ddarpariaethau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("Deddf 2016").

### **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Ni chafodd unrhyw faterion penodol eu nodi.

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

Mae'r pwerau sy'n galluogi'r rheoliadau hyn i gael eu gwneud wedi'u cynnwys yn adran 255 o Ddeddf 2016.

Mae'r OS hwn yn cael ei wneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i ddarpariaethau Deddf 2016.

Yn gyffredinol, mae'r diwygiadau hyn naill ai:

- a. yn sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol mewn is-ddeddfwriaeth yn parhau i gael effaith briodol drwy -
  - i. cyfeirio at y contractau meddiannaeth perthnasol ochr yn ochr â chyfeiriadau at fathau presennol o denantiaethau, neu
  - ii. cynnwys y derminoleg a ddefnyddir yn Neddf 2016

neu -

- b. lle bwriedir i ddarpariaethau Deddf 2016 ddisodli elfennau o'r gyfraith bresennol neu mae'r gyfraith bresennol yn anghydnaws â'r hyn a nodir yn Neddf 2016, drwy ddatgymhwyso'r gyfraith honno.

Mae'r diwygiadau hyn yn angenrheidiol er mwyn gweithredu Deddf 2016, darparu cydlyniad, eglurder a sicrhau cysondeb o ran y gyfraith.

### **5. Ymgynghori**

Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol gan mai diwygiadau technegol canlyniadol yn unig y mae'r rheoliadau hyn yn eu gwneud.

## **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi mewn perthynas â'r rheoliadau diwygio canlyniadol hyn gan mai eu diben yw gwneud diwygiadau i statud ac nid ydynt yn gosod nac yn lleihau costau ar gyfer busnesau, elusennau neu gyrff gwirfoddol nac i'r sector cyhoeddus.